**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 23 Hydref 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 23 Hydref 2020

---

## PWNC

Eitem 7:CYTUNDEB TERFYNOL

---

## PENDERFYNIAD

- Cymeradwywyd cyflwyno'r Achos Busnes Portffolio a'r pum Achos Busnes Rhaglen i Lywodraethau'r DU a Chymru am Gytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru.
- Cytunwyd bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cytunwyd bod pob un o'r Partïon yn unigol yn cymeradwyo ac yn ymrwymo i Gytundeb Llywodraethu 2 ac yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyadau a'r Cylch Gorchwyl yn “Atodiad 1 o Gytundeb Llywodraethu 2” ohono fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.
- Cymeradwywyd y dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca mewn egwyddor sydd ei angen i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i gwrdd â'r gost hon a’r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi’u sefydlu, fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 - 5.7 o’r adroddiad).
- Cytunwyd bod y Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais, Swyddog Monitro'r Corff Atebol a Swyddog Adran 151 y Corff Atebol, yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.
- Cymeradwywyd ailenwi'r Swyddfa Rhaglen yn Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag arfer gorau ac o ganlyniad i hynny, newid teitl swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn Gyfarwyddwr Portffolio.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, yn Hydref 2018 cytunwyd ar y Cynllun Twf gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a’r sector breifat.

---

Yn Nhachwedd 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais a'r ddwy Lywodraeth i Benawdau'r Telerau, gyda Chytundeb Terfynol i'w gwblhau yn 2020.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gyrraedd Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd Rhagfyr 2020.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 23 Hydref 2020**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 23 Hydref 2020 |

---

**PWNC**

Eitem :CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd Adolygiad Ail Chwarter y Cyd-Bwyllgor ar gyfer 2020/21.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd fod angen darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i'r Bwrdd uchelgais ynghyd a rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn y gyllideb flynyddol.

Er mwyn gweithredu'n effeithiol mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a rhagamcan yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---